Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Cynllun corfforaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer

2021–2022

# Rhagair Neges gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd

**2021–2022 yw ail flwyddyn strategaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar gyfer 2020—2025. Lansiwyd y strategaeth honno ym mis Ebrill 2020 pan oedd ton gyntaf y pandemig byd-eang ar fin cyrraedd ei hanterth. Roedd yn nodi'n glir ein pwrpas i reoleiddio'n dda; gweithio i gefnogi'r cyhoedd, y gweithwyr proffesiynol sydd ar ein cofrestr a'n partneriaid; a defnyddio ein dealltwriaeth reoleiddiol i ddylanwadu ar bolisi iechyd a gofal cymdeithasol. Fe wnaethom gyflwyno rhaglen waith uchelgeisiol i gyflawni ein pwrpas a gwella ein sefydliad.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi cyflawni cryn dipyn ac rydyn ni'n falch o gynifer o lwyddiannau, gan gynnwys lansio a chynnal y gofrestr dros dro i gynyddu capasiti'r gweithlu yn ystod yr argyfwng; cyflwyno safonau addysg ar gyfer gwasanaethau brys ac adfer i gefnogi myfyrwyr ac addysgwyr; gweithio o bell i barhau i gynnig ein gwasanaethau gan gynnwys y ganolfan gyswllt a threfnu rhith-wrandawiadau ar addasrwydd i ymarfer.

Er mwyn gwneud hyn i gyd, rydyn ni wedi bod yn hyblyg ac yn ymatebol, gan weithio ar y cyd â'n gweithwyr proffesiynol a'n partneriaid i gytuno ar yr hyn sydd angen ei wneud, canfod atebion a'u rhoi ar waith. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod blwyddyn y pandemig. Fydden ni wedi bod ar goll hebddoch chi.

Hoffem ddiolch yn benodol i'r nyrsys, y bydwragedd, y cymdeithion nyrsio a'r myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth. Fel arweinwyr, gweithwyr proffesiynol sydd newydd gymhwyso, ymarferwyr profiadol, pobl sy'n dychwelyd i'r gofrestr dros dro neu fyfyrwyr, mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi bod yn heriol yn bersonol ac yn broffesiynol. Maent wedi rhoi cymaint ac mae rhai wedi colli cymaint. Mae eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn ein hysbrydoli ni i gyd yn yr NMC i wneud ein gorau glas i hyrwyddo a chefnogi'r safonau proffesiynol uchel sy'n diogelu'r cyhoedd.

Nid oedd llawer o'n cyflawniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn rhan o'n strategaeth newydd. Er bod popeth a wnaethom wedi cael ei arwain gan ein pwrpas o reoleiddio, cefnogi a dylanwadu a'n gwerthoedd newydd i fod yn deg, yn garedig, yn uchelgeisiol ac yn gydweithredol, ni allai rhai o'r cynlluniau penodol roedden ni wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn fynd rhagddynt fel roedden ni wedi'i ragweld yn wreiddiol. Effeithiodd y pandemig hefyd ar ein gwaith, gan gyfrannu, er enghraifft, at ôl-groniad o achosion addasrwydd i ymarfer. Bydd y ffactorau hyn yn cael cryn effaith ar ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r dyfodol yn ansicr hefyd – mae'r rhaglen frechu'n llwyddiant ysgubol ac mae'n rhoi gobaith gwirioneddol y byddwn yn adfer ar ôl Covid-19 ond pa heriau fyddwn ni'n eu hwynebu ar hyd y ffordd? Gallwn weld y pwysau ar y gweithlu. Dydyn ni ddim wir yn gwybod beth yw sgil effeithiau Brexit eto. Mae Papur Gwyn y Llywodraeth 'Integreiddio ac arloesi: gweithio gyda'n gilydd i wella iechyd a gofal cymdeithasol i bawb' (Saesneg yn unig) yn addo diwygiadau rheoleiddio hirddisgwyliedig ond nid yw'r amserlen a'r cynigion penodol ar ein cyfer yn glir eto.

Mae gennym ni sylfaen dda i adeiladu arni, ond gyda'r oedi i'n rhaglenni strategol, pwysau gweithredol ac amgylchedd ansicr, allwn ni ddim llaesu dwylo. Mae ein blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer y flwyddyn i ddod a nodir yn y cynllun hwn yn adlewyrchu ein huchelgais i barhau i ddatblygu.

Mae'r adferiad Addasrwydd i Ymarfer yn hollbwysig, ac mae gennym gynlluniau i ddatrys yr ôl-groniad drwy fuddsoddi a gwella. Ond nid dyna fydd ein hunig flaenoriaeth. Er enghraifft, byddwn yn cwblhau ein gwaith ar safonau ôl-gofrestru er mwyn i ni allu symud yn ystod blynyddoedd dilynol y strategaeth i ystyried ymarfer nyrsio uwch a'r adolygiad o'r Cod. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wneud yr NMC yn lle gwirioneddol wych i weithio drwy barhau i drawsnewid ein cefnogaeth i gydweithwyr; gwella systemau ac offer TG; ac ailgynllunio sut rydyn ni'n gweithio gartref ac yn ein swyddfeydd.

Does dim dwywaith fod gennym ni lawer i'w wneud. Rydyn ni newydd oroesi blwyddyn hynod anodd lle bu'n rhaid i ni ymdopi ag anawsterau personol a phroffesiynol. Mae llawer o newid wedi bod – gan gynnwys ymadawiad trist ac annisgwyl ein Cadeirydd Philip Graf a chroesawu pedwar aelod newydd o'r Cyngor.

Ond er gwaethaf hyn i gyd, rydyn ni wedi gwneud gwahaniaeth. Mae ein timau'n dalentog ac ymroddedig ac rydyn ni'n parhau i recriwtio cydweithwyr newydd brwdfrydig ac arbenigol. Rydyn ni wedi croesawu ffyrdd newydd o weithio ac yn benderfynol o lwyddo.

Rydw i'n ddiolchgar iawn i fy nghydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad, yr uwch dîm a'r Cyngor am bopeth maen nhw wedi'i wneud yn 2020-2021. Rwy'n gwybod y bydd cydweithio, bod yn deg a bod yn garedig yn gwireddu'r uchelgeisiau rydyn ni wedi'u nodi yn y cynllun hwn ar gyfer 2021-2022.

**Andrea Sutcliffe**
**Prif Weithredwr**
**Chofrestrydd**



# Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud

**Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol bron i 732,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym ni rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.**

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**.
Yn gyntaf, rydyn ni'n hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydyn ni'n cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, byddwn yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydyn ni'n credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn ni bob amser yn gweithredu pan fydd angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydyn ni'n **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydyn ni'n creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth weithio a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydyn ni hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydyn ni'n gwneud ein hunain yn fwy amlwg er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd ac ar ofal cymdeithasol. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydyn ni'n defnyddio ein llais i siarad o blaid amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.

# Ein gwerthoedd

### Rydyn ni'n deg

Rydyn ni'n trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth galon ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr dibynadwy a thryloyw.

### Rydyn ni'n garedig

Rydyn ni'n ymddwyn yn garedig ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu safbwyntiau, eu sefyllfaoedd a'u profiadau.

### Rydyn ni'n cydweithio

Rydyn ni'n gwerthfawrogi ein perthnasoedd (y tu mewn a'r tu allan i'r NMC) ac yn cydnabod ein bod ni ar ein gorau pan fyddwn ni'n gweithio'n dda gydag eraill.

### Rydyn ni'n uchelgeisiol

Rydyn ni'n ymfalchïo yn ein gwaith. Rydyn ni'n agored i ffyrdd newydd o weithio ac yn ceisio gwneud ein gorau glas bob amser dros y gweithwyr proffesiynol sydd ar ein cofrestr, y cyhoedd rydyn ni'n eu gwasanaethu a'n gilydd.



# Ein strategaeth

**2021–2022 yw ail flwyddyn ein strategaeth bum mlynedd hyd at 2025. Gallwch ddarllen ein strategaeth lawn ar ein gwefan.**

## Ein rôl 2020–2025

### Rheoleiddio

- **Cofrestr** gywir a thryloyw
- **Safonau** proffesiynol ac addysgol cadarn
- Sicrhau ansawdd **rhaglenni addysg**
- Ymateb yn deg i **bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer**

### Cefnogi

- Hyrwyddo **dealltwriaeth** – Ein proffesiynau a'n rôl
- Darparu **adnoddau ymarferol** – helpu i wreiddio safonau
- **Cymorth ymarferol/emosiynol** – pobl sy'n ymwneud â'n prosesau

### Dylanwadu

- Hyrwyddo **amgylcheddau gwaith proffesiynol** cadarnhaol a chynhwysol
- Rhannu **data a dealltwriaeth** i nodi risgiau o niwed a mynd i'r afael â heriau'r gweithlu
- Annog **arloesi rheoleiddiol**

## Themâu 2020–2025

- Arloesi a gwella
- Cymorth rhagweithiol
- Gweladwy a mwy gwybodus
- Ymgysylltu a grymuso
- Dealltwriaeth a dylanwad



# Cyd-destun ar gyfer y flwyddyn i ddod

## Adfer ar ôl pandemig y coronafeirws

**Roedd gennym ni rôl hollbwysig o ran cefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol i gynyddu'r gweithlu yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig.**

Aethom ati i lunio cofrestr Covid-19 dros dro, gan wahodd nyrsys a bydwragedd a oedd wedi gadael ein cofrestr barhaol ar ôl mis Mawrth 2015 i ymuno. Fe wnaethom hefyd wahodd grwpiau penodol o weithwyr proffesiynol a oedd wedi'u hyfforddi dramor nad oeddent wedi ymuno â'n cofrestr barhaol eto. Roedd 16,077 o nyrsys a bydwragedd wedi cofrestru ar gofrestr Covid-19 dros dro ar 28 Chwefror 2021.

Roedd y pandemig yn golygu bod yn rhaid i ni addasu'n gyflym i weithio gartref. Roedd yn rhaid i ni hefyd oedi ein gwaith achos addasrwydd i ymarfer ac eithrio'r achosion risg uchaf, ac addasu ein harferion gweithio ar y safle. Roedd hyn yn golygu bod ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd yn rhaid i ni felly ailgynllunio'r gwaith roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth bum mlynedd.

Nawr bod y rhaglen frechu'n llwyddo a bod y cyfyngiadau'n cael eu llacio, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion mewn tri maes yn ystod 2021-2022:

1. cynnal ein cofrestr Covid-19 dros dro cyhyd ag y bo angen
2. dod â chydweithwyr yn ôl i'r swyddfa gan gadw manteision gweithio'n hyblyg
3. lleihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer.



## Lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer

**Rydyn ni'n dechrau 2021–2022 gyda llwyth achosion addasrwydd i ymarfer uchel iawn. Cyfuniad o ffactorau sydd wedi effeithio arnom dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n gyfrifol am hyn, ac nid cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau.**

Roedd y llwyth achosion yn dechrau cynyddu tua diwedd 2019–2020. Roedd hyn yn rhannol oherwydd ffyrdd newydd o weithio, drwy ganolbwyntio ar yr unigolyn, a oedd yn cymryd mwy o amser. Roedd hefyd yn rhannol oherwydd swyddi gwag mewn timau allweddol, fel sgrinio ac ymchwiliadau.

Roedden ni wedi dechrau mynd i'r afael â'r cynnydd hwn yn nifer yr achosion. Ond roedd y pandemig yn golygu bod angen i ni wneud rhai penderfyniadau am addasrwydd i ymarfer a oedd wedi cynyddu ein llwyth achosion ymhellach.

- Blaenoriaethu gweithgareddau i reoli risgiau uniongyrchol i'r cyhoedd. Roedd hyn yn canolbwyntio ar orchmynion interim, adolygiadau o orchmynion interim a gorchmynion gwirioneddol, ac ymestyn gorchmynion interim drwy'r llysoedd lle bo angen. I wneud hyn, fe wnaethom greu'r cyfleuster i gynnal rhith-wrandawiadau.
- Blaenoriaethu achosion lle'r oedd canlyniad yr ymchwiliad yn awgrymu ei fod yn debygol o gau ar gam yr Archwiliwr Achosion. Roedd hyn yn galluogi nyrsys a bydwragedd i helpu gyda'r ymateb i'r pandemig heb boeni am atgyfeiriad agored addasrwydd i ymarfer.
- Atal gwaith achos arall ar addasrwydd i ymarfer lle nad oedd risg uniongyrchol i'r cyhoedd, er mwyn peidio â gwyro gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol rheng flaen oddi wrth yr ymateb i'r pandemig.

Yr effaith yw bod gennym lwyth achosion sy'n rhy uchel erbyn hyn. Gwyddom fod oedi mewn gwaith achos yn cael effaith negyddol sylweddol ar bawb sy'n ymwneud â'n prosesau, yn enwedig aelodau o'r cyhoedd a phobl ar ein cofrestr sy'n aros i'w hachosion symud ymlaen.

Lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yw conglfaen ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2021–2022. Rydyn ni am wneud newidiadau sy'n lleihau'r llwyth achosion yn gyflym, gan adeiladu ar ein gwaith presennol o ran addasrwydd i ymarfer a chreu gwelliannau hirdymor i'r modd rydyn ni'n rheoleiddio.

Er mwyn lleihau'r llwyth achosion cyn gynted â phosibl, rydyn ni'n ailgynllunio'r prosesau sy'n cefnogi ein gwaith rheoleiddio ac yn buddsoddi mewn adnoddau ychwanegol.

Rydyn ni am greu gwelliannau hirdymor a fydd yn ein helpu i wneud y penderfyniadau iawn, ar yr adeg iawn. Felly rydyn ni hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr i ddatrys achosion yn gyflym, yn lleol, lle bynnag bo hynny'n briodol.

## Gwneud ein prosesau'n deg i bawb

**Rydyn ni'n glir am ein cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) fel rheoleiddiwr gofal iechyd blaenllaw. Rydyn ni'n uchelgeisiol ynghylch yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn hyrwyddo arferion gorau ym maes cydraddoldeb, ac yn gweithio gydag eraill i sicrhau bod ein prosesau, a'r sector ehangach, yn seiliedig ar degwch.**

Mae pedair elfen i'n dull gweithredu EDI – polisi clir, cyfathrebu effeithiol, gwerthfawrogi ein pobl a thystiolaeth gadarn. Mae arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn sail i'r pedair elfen hyn.

Mae gennym ni dîm EDI penodol sy'n rhoi cyngor ac arweiniad, yn meithrin perthnasoedd, yn craffu ar ein cydymffurfiaeth ac yn sbarduno cynnydd. Bydd yn parhau i gefnogi cydweithwyr i ddefnyddio adnoddau EDI yn effeithiol, fel asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Mae gennym ni hefyd Grwp Arweinyddiaeth EDI sy'n gyfrifol am oruchwylio gwelliannau ym mhob rhan o'n sefydliad. Mae ein rhwydweithiau o weithwyr mewnol yn dod â chydweithwyr at ei gilydd mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn dathlu, ac yn rhoi cipolwg amhrisiadwy ar faterion sy'n effeithio ar grwpiau lleiafrifol.

Am y tro cyntaf yn 2020, fe wnaethom gyflwyno data i Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu (WRES) y GIG. Fe wnaethom hefyd gyflwyno ein hadroddiadau ar y bwlch cyflog o ran anabledd ac ethnigrwydd, ochr yn ochr â'n hadroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ni oedd y rheoleiddiwr iechyd a gofal proffesiynol cyntaf i ymrwymo i WRES ac un o'r ychydig sefydliadau yn genedlaethol i gyhoeddi gwybodaeth am ein bwlch cyflog o ran ethnigrwydd.

Eleni, rydyn ni am adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gennym yn 2020 i hyrwyddo cydraddoldeb o fewn yr NMC.

Er mwyn gwneud ein gwaith ein hunain yn decach, byddwn yn lansio ail gam ein hymchwil Uchelgeisiol dros Newid yn 2021. Bydd yn ystyried pam mae gwahanol grwpiau o weithwyr proffesiynol yn cael canlyniadau gwahanol pan fyddant yn mynd drwy ein prosesau ni, beth yw'r effeithiau a beth gallwn ni ei wneud, gydag eraill, i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau.

Yn allanol, byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid mewn cyrff rheoleiddio eraill, arbenigwyr ar draws y maes gofal iechyd a sefydliadau EDI i sicrhau ein bod yn clywed amrywiaeth eang o leisiau ar y materion sydd wir yn bwysig. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr i sbarduno newid ar draws y sector gyda'n gilydd.



## Gwneud cynnydd gyda'n huchelgeisiau strategol

**Er bod adfer ar ôl pandemig y coronafeirws a lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn flaenoriaethau uchel, mae ein huchelgeisiau strategol yn ddigyfnewid o hyd.**

Bydd gwneud cynnydd gyda'n huchelgeisiau strategol drwy wella'r modd rydyn ni'n rheoleiddio, gwella ein cefnogaeth a chryfhau ein dylanwad yn parhau i lywio ein gwaith yn y flwyddyn i ddod. Mae ein profiad o'r pandemig wedi atgyfnerthu ein penderfyniad i gyflawni'r cynlluniau uchelgeisiol a nodwyd gennym yn wreiddiol.



# Ein hymrwymiadau ar gyfer 2021–2022

## Arloesi a gwella

**1**
Lleihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a gwella sut rydyn ni'n delio â phryderon

**2**
Diweddaru'r prawf y mae nyrsys a bydwragedd rhyngwladol yn ei sefyll i ymuno â'n cofrestr

## Cymorth rhagweithiol i weithwyr proffesiynol

**3**
Cyflawni safonau newydd ôl-gofrestru

**4**
Penderfynu a ddylid cynnig newidiadau i safonau rhaglenni ar gyfer addysg cyn-gofrestru

## Mwy gweladwy a mwy gwybodus

Byddwn yn datblygu dull gweithredu mwy systematig ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws pedair gwlad y DU. Byddwn yn datblygu dull gweithredu newydd hefyd ar gyfer ein gwasanaeth allgymorth.

## Grymuso ac ymgysylltu

**5**
Meithrin ymddiriedaeth pobl mewn rheoleiddio ym

## Gwell dealltwriaeth a dylanwad

**6**
Gweithio gyda'r Llywodraeth ar ddiwygio rheoleiddiol er mwyn cael rheoliadau gwell, mwy diogel

**7**
Defnyddio data, dealltwriaeth a dylanwad yn fwy doeth ar gyfer addysg cyn-gofrestru

## Addas ar gyfer y dyfodol

**8**
Gwella strwythur NMC a datblygu ein pobl

**9**
Diweddaru systemau digidol i wella'r profiad i gwsmeriaid a chydweithwyr

**10**
Creu gweithfannau sy'n cefnogi lles a gweithio'n hyblyg

## Blaenoriaethau trawsbynciol sy'n sail i'n hymrwymiadau

Cyflawni ein hymrwymiadau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Recriwtio a chroesawu ein Cadeirydd newydd

Dod â chydweithwyr yn ôl i'n swyddfeydd a chreu trefniadau gweithio hybrid

**Wedi'u monitro drwy fesurau perfformiad corfforaethol**

# Ein hymrwymiadau corfforaethol ar gyfer 2021–2022

**Ein rôl graidd yw rheoleiddio nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.**

Rydyn ni'n gwneud hyn drwy'r canlynol:

- cynnal cofrestr gywir a thryloyw o fydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio
- cynnal y gofrestr Covid-19 dros dro cyhyd ag y bo angen
- pennu safonau addysg a phroffesiynol cadarn
- sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth
- ymateb yn deg i bryderon am fydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio.

Mae'r ymrwymiadau corfforaethol canlynol yn ategu ein rôl graidd. Rydyn ni wedi cyflwyno pob ymrwymiad o dan ein themâu strategol ar gyfer 2020-2025.



# Arloesi a gwella

**Gwella ac arloesi ar draws ein holl swyddogaethau rheoleiddio, gan ddarparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid, a sicrhau bod y cyhoedd yn cael y budd mwyaf posibl o'r hyn rydyn ni'n ei wneud.**

## Ymrwymiad 1

### Lleihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a gwella'r modd rydyn ni'n delio â phryderon pobl am weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol.

**Perchennog:** Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol

Rydyn ni am leihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a gwneud gwelliannau hirdymor i feithrin diwylliant tecach ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy:

- sicrhau gwelliant parhaus drwy gymhwyso egwyddorion ein dull newydd o ymdrin ag addasrwydd i ymarfer, rhoi ein hunain yn esgidiau pobl eraill a meithrin diwylliant tecach sy'n annog pobl i fod yn agored a dysgu
- rhoi gwybodaeth well i bobl sy'n mynegi pryderon a chefnogi datrys pryderon yn lleol lle bo hynny'n briodol
- buddsoddi mewn adnoddau ychwanegol i gynyddu ein capasiti.

Bydd ein gwaith yn 2021-2022 yn cynnwys:

- denu cydweithwyr newydd a chefnogi ein holl gydweithwyr i fynd i'r afael â'r llwyth achosion
- gwella ein gwybodaeth am yr hyn y gallwn ei wneud a'r hyn na allwn ei wneud er mwyn lleihau nifer yr atgyfeiriadau y byddwn yn eu cau ar ddechrau ein prosesau
- cryfhau ein hasesiad o bryderon posibl pan fyddant yn cael eu codi
- cyflwyno newidiadau i'n prosesau addasrwydd i ymarfer sy'n gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd cyffredinol.

## Ymrwymiad 2

### Diweddaru'r prawf y mae nyrsys a bydwragedd rhyngwladol yn ei sefyll i ymuno â'n cofrestr.

**Perchennog:** Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio Proffesiynol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol, Cofrestru ac Ailddilysu

Rydyn ni am ddiweddaru ein prawf ar gyfer asesu sgiliau a gwybodaeth ymgeiswyr tramor a'r rheini sy'n dymuno ailymuno â'n cofrestr ar ôl cyfnod i ffwrdd o ymarfer.

Bydd ein gwaith yn 2021-2022 yn cynnwys:

- cyflwyno 'prawf cymhwysedd' newydd ar gyfer y ddau grwp hyn, sy'n adlewyrchu ein safonau newydd arloesol ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth
- gweithio'n helaeth gyda phartneriaid i helpu ymgeiswyr ar gyfer y prawf newydd i baratoi, gan gynnwys hyrwyddo cyfres o ddeunydd ategol
- tendro am gontractau newydd ar gyfer canolfannau prawf, mewn tri lleoliad ledled y DU ar hyn o bryd.



# Cymorth rhagweithiol i weithwyr

**Galluogi ein proffesiynau i gynnal ein safonau heddiw ac yfory, gan ragweld a llywio ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol.**

## Ymrwymiad 3

### Cyflwyno safonau addysg newydd sy'n adeiladu ar yr uchelgeisiau ar gyfer nyrsio iechyd cyhoeddus a chymunedol yn y DU.

**Perchennog:** Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol

Rydyn ni am sicrhau bod ein safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn parhau i ddiwallu anghenion y bobl maent yn eu gwasanaethu. Mae angen i'n safonau fod yn uchelgeisiol, fel bod gan ein proffesiynau'r wybodaeth a'r sgiliau cywir nawr ac yn y dyfodol.

Bydd ein gwaith yn 2021-2021 yn cynnwys:

- lansio ymgynghoriad cyhoeddus pedwar mis ar y safonau ôl-gofrestru drafft, sy'n galluogi'r genhedlaeth nesaf o nyrsys iechyd cyhoeddus a chymunedol i ofalu am bobl mewn byd sy'n newid yn gyflym
- defnyddio adborth o'r ymgynghoriad i ddiwygio ein safonau ôl-gofrestru drafft, i sicrhau y byddant yn galluogi'r genhedlaeth nesaf o nyrsys iechyd cyhoeddus a chymunedol sy'n meddu ar y sgiliau priodol i ofalu am bobl mewn byd sy'n newid yn gyflym
- paratoi i gyhoeddi'r safonau newydd drwy gysylltu â phartneriaid ac ymgysylltu â'r rhai sydd wedi cofrestru sy'n ymwneud ag ymarfer nyrsio cymunedol, iechyd y cyhoedd ac ymarfer nyrsio arbenigol arall.

## Ymrwymiad 4

### Defnyddio tystiolaeth ac ymchwil i benderfynu a ddylid cynnig newidiadau i safonau ein rhaglen ar gyfer addysg cyn cofrestru.

**Perchennog:** Cyfarwyddwr Gweithredol Ymarfer Proffesiynol

Rydyn ni am sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn barod ar gyfer heriau newydd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n newid.

Bydd ein gwaith yn 2021-2022 yn cynnwys:

- penderfynu a ddylid gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i newid safonau'r rhaglen ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth (a diwygio safonau'r rhaglen ar gyfer cymdeithion nyrsio)
- os byddwn yn cynnig newidiadau, gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid i bennu safonau'r rhaglen sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, er mwyn i fyfyrwyr ddangos hyfforddiant diogel ac effeithiol adeg cofrestru
- paratoi i ymgynghori ar unrhyw safonau diwygiedig arfaethedig.



## Mwy gweladwy a mwy gwybodus

**Rydyn ni'n gweithio mewn cysylltiad agos â'n proffesiynau, eu cyflogwyr a'u haddysgwyr er mwyn i ni allu rheoleiddio gyda dealltwriaeth fwy manwl o'r amgylchedd dysgu a gofal ym mhob gwlad yn y DU.**

Byddwn yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, ein partneriaid a'r cyhoedd, gan ddefnyddio cymysgedd o sianeli dwyffordd. Yn anad dim, byddwn yn adolygu ac yn datblygu ein presenoldeb ar draws pedair gwlad y DU, gyda dull gweithredu mwy systematig a phenodol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni ein strategaeth ar sail ranbarthol a datganoledig. Drwy ddilyn arweiniad adolygiad 2020 o'r gwasanaeth cyswllt â chyflogwyr, byddwn hefyd yn datblygu dull gweithredu newydd ar gyfer ein gwasanaeth allgymorth sy'n barod i'w roi ar waith yn 2022-2023.



## Grymuso ac Ymgysylltu

**Ymgysylltu â'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid, a'u grymuso. NMC sy'n ymatebol ac yn ddibynadwy, gan feithrin dealltwriaeth o'r hyn rydyn ni a'n gweithwyr proffesiynol yn ei wneud dros bobl.**

### Ymrwymiad 5

**Meithrin ymddiriedaeth pobl mewn rheoleiddio proffesiynol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth drwy well dealltwriaeth.**

**Perchennog:** Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Rydyn ni am i weithwyr proffesiynol, myfyrwyr a'r cyhoedd wybod dros beth rydyn ni'n sefyll, beth rydyn ni'n ei wneud a ddim yn ei wneud, ac i ble rydyn ni'n mynd.

Bydd ein gwaith yn 2021-2022 yn cynnwys:

- datblygu rhaglen gyfathrebu ac ymgysylltu 'NMC a Chi' ar draws pedair gwlad y DU
- gwneud gwaith ymchwil i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y grwpiau hyn, pryd bynnag a sut bynnag y byddant am ei chael
- datblygu hunaniaeth fwy hygyrch a chynhwysol sy'n rhyngweithio'n well â ni ac sy'n dangos ein gwerthoedd
- datblygu ymgyrchoedd gwybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol, myfyrwyr a'r cyhoedd er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder yn yr hyn a wnawn.

# Dealltwriaeth a dylanwad

**Dysgu o ddata ac ymchwil i wella'r hyn rydyn ni'n ei wneud a chydweithio i rannu dealltwriaeth yn gyfrifol er mwyn helpu i wella'r system iechyd a gofal ehangach.**

## Ymrwymiad 6

### Gweithio gyda'r Llywodraeth i gael gwared ar rwystrau cyfreithiol sy'n cyfyngu ar welliannau yn y modd rydyn ni'n rheoleiddio, er mwyn i ni allu rheoleiddio'r cyhoedd yn well ac yn fwy diogel.

**Perchennog:** Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Dealltwriaeth

Ysgrifennwyd ein deddfwriaeth yn 2001 ac mae ein disgwyliadau o ran gofal, a sut caiff gofal ei ddarparu, wedi newid yn aruthrol. Gyda deddfwriaeth fwy modern a hyblyg, byddwn mewn sefyllfa well i barhau i alluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal rhagorol i bobl ledled y DU.

Bydd ein gwaith yn 2021-2022 yn cynnwys:

- ymateb i ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) ar egwyddorion diwygio rheoleiddio (Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, diogelu'r cyhoedd)
- datblygu ein polisi er mwyn i ni allu dylanwadu ar gynnwys y ddeddfwriaeth
- datblygu rheolau enghreifftiol drafft i lywio'r ymgynghoriad ar ein deddfwriaeth yn 2022
- paratoi ar gyfer yr ymgynghoriad ar ein deddfwriaeth newydd yn 2022.

## Ymrwymiad 7

### Defnyddio ein data, ein dealltwriaeth a'n dylanwad yn fwy doeth.

**Perchennog:** Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Dealltwriaeth

Rydyn ni am wella sut rydyn ni'n casglu ac yn deall data, a gwneud gwaith ymchwil i wella ein dealltwriaeth o sut gallwn weithio'n fwy effeithiol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a dylanwadu ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd ein gwaith yn 2021-2022 yn cynnwys:

- cyflawni cam nesaf ein gwaith sy'n edrych ar wahaniaethau o ran atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a chanlyniadau achosion
- chwarae ein rhan yn y gwaith o wella diogelwch, ansawdd a diwylliant gwasanaethau mamolaeth yn y DU
- gosod sylfeini i wella ein data, ein dealltwriaeth a'n gallu i ddadansoddi
- gweithio tuag at gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf sy'n rhoi cipolwg ar y cyd-destun lle mae ein proffesiynau'n dysgu ac yn gweithio.



# Sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol

**Mae gan ein nodau strategol gryn oblygiadau o ran y modd rydyn ni'n gweithredu fel sefydliad. Mae angen i ni wneud yn siwr bod gennym y gallu, y prosesau a'r adnoddau iawn i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer y cyfnod strategol sydd o'n blaenau.**

## Ymrwymiad 8

### Parhau i wella strwythur ein sefydliad, a datblygu ein pobl er mwyn i ni allu cyflawni ein strategaeth.

**Perchennog:** Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol

Gall y modd rydyn ni wedi cael ein strwythuro fel sefydliad ein helpu ni i gefnogi ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig. Mae datblygu ein dyluniad sefydliadol yn ein helpu i gyflawni ein strategaeth:

- pennu ffyrdd mwy doeth o weithio
- lleihau gweithio mewn seilos ac annog agwedd 'un NMC' tuag at bolisi, dysgu, cyfathrebu a gwybodaeth
- bod yn fwy effeithiol ac effeithlon yn ein gwaith, yn fewnol ac yn allanol.

Byddwn ni hefyd yn sicrhau bod pobl wrth galon y broses. Byddwn yn dod yn gyflogwr mwy cynhwysol sy'n datblygu ei bobl, gan wneud yn siwr eu bod yn cael eu gwobrwyo'n briodol.

Bydd ein gwaith yn 2021-2022 yn cynnwys:

- cynnal adolygiad o'r modd rydyn ni'n gweithio mewn meysydd allweddol gyda chynllun gweithredu i'w roi ar waith erbyn diwedd y flwyddyn
- rhoi cynllun pobl newydd ar waith sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad gyrfa, darparu fframwaith cyflogau modern a blaenoriaethu EDI.

## Ymrwymiad 9

### Uwchraddio ein systemau a'n hoffer digidol i'w gwneud yn haws i bobl gysylltu â ni ac i gydweithwyr yn yr NMC wneud eu gwaith yn dda.

**Perchennog:** Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Technoleg ac Adnoddau

Byddwn yn parhau i foderneiddio'r systemau sy'n cefnogi ein gwaith .rheoleiddio. Bydd hyn yn helpu i wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid. Bydd hefyd yn ein helpu i ddefnyddio data i wella ein gwaith a dylanwadu ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach

Bydd ein gwaith yn 2021-2022 yn cynnwys:

- gwella perfformiad ein rhwydwaith digidol, uwchraddio ein system gweithredu cyfrifiadurol, defnyddio offer cydweithredol newydd ac uwchraddio ein cyfleusterau fideo-gynadledda
- cyflwyno cam nesaf y gwaith i symud ein cofrestr i system fwy modern a chynllunio sut byddwn yn cyflwyno system rheoli achosion newydd yn

## Ymrwymiad 10

### Creu mannau gwaith sy'n cefnogi lles a chydweithredu rhwng y rheini sy'n gweithio o bell neu yn y swyddfa.

**Owner:** Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Technoleg ac Adnoddau

Rydyn ni'n datblygu cynlluniau ar gyfer amgylcheddau gwaith mwy modern, i gefnogi mwy o gydweithio a ffyrdd newydd o weithio. Byddwn yn ystyried popeth rydyn ni wedi'i ddysgu o lwyddiant gweithio o bell yn ystod pandemig y coronafeirws. Bydd hyn yn ein helpu i wasanaethu'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, ein partneriaid a'r cyhoedd.

Bydd ein gwaith yn 2021-2022 yn cynnwys:

- symud ein cydweithwyr yng Nghaeredin i swyddfa fwy modern
- cefnogi cydweithwyr i ddychwelyd i'n swyddfeydd yn ddiogel
- cynllunio ar gyfer adnewyddu ein swyddfa yn 23 Portland Place.

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T +44 20 7333 9333

**nmc.org.uk**

@nmcnews
@nmcuk

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland
Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362).
©NMC 2021 - 0008

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth